# CDLl2 Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018 - 2033

Draft

## Papur Pwnc: Twristiaeth

## Diweddariad ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir

## 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost [ldp@ceredigion.gov.uk](mailto:ldp@ceredigion.gov.uk) neu dros y ffôn 01545 572123**

Drafft

# Cynnwys

Cynnwys i

Nodyn i'r Darllenydd ii

1. Crynodeb Gweithredol 1

2. Cyflwyniad 4

3. Tabl Diweddaru 5

4. Y Cyd-destun Lleol 36

5. Materion Adolygu (Ysgogwyr) 37

6. Newidiadau mewn Deddfwriaeth a Pholisi 37

7. Tystiolaeth 43

8. Mentrau Newydd 54

9. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer rhoi sylw i'r mater) 55

10. Casgliadau / Argymhellion 57

Draft

# Nodyn i'r Darllenydd

Cyhoeddwyd y Papurau Pwnc Diweddaru ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adnau yr un pryd (Rhagfyr 2010), ac maent yn dal i fod ar gael ar wefan y Cyngor neu ar ffurf copi papur ar gais.

Pwrpas y Ddogfen Weithiol Diweddaru ddrafft hon yw dangos, ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn Ebrill 2013, a fu unrhyw newidiadau mewn cyfarwyddyd, polisïau neu strategaethau perthnasol, gwybodaeth a thystiolaeth, neu faterion sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau, sy'n awgrymu bod y materion a gafodd sylw yn y CDLl mabwysiedig wedi newid, neu nid ydynt yn cael sylw llawn yn y polisïau, ac mae angen eu hystyried wrth baratoi Strategaeth a Ffefrir y CDLl diwygiedig.

Bydd pob Papur Pwnc yn darparu tabl cryno o unrhyw faterion sydd wedi codi ers i'r Cynllun gael ei adneuo, ac a yw'r rhain yn golygu bod angen ymchwiliad pellach i weld a oes angen gwneud newidiadau fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl, neu esboniad pellach ynghylch pam nad oes angen gwneud newidiadau. Os oes angen cael trafodaethau pellach caiff hyn ei gynnwys o fewn y papur diweddaru.

Draft

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1.1 Pwrpas y papur hwn yw archwilio twristiaeth yng Ngheredigion. Mae'n ystyried polisi a'r cyd-destun lleol, materion allweddol a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol wrth lunio amcanion. polisïau a fframwaith monitro twristiaeth priodol i'w cynnwys yn yr adolygiad o'r CDLl.

1.1.2 Mae twristiaeth yn sector sylweddol o economi'r rhanbarth ac yn cwmpasu cyflogaeth ac incwm ar draws Ceredigion. Cydnabyddir hyn yn y rhaglenni gwaith sy'n cael eu datblygu ac sy'n deillio o agenda 'Tyfu Canolbarth Cymru' a fydd yn darparu ffocws ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer twristiaeth sy'n effeithio ar Geredigion am y pymtheg mlynedd nesaf, yn seiliedig ar ymdeimlad o 'le'. Mae'r dull hwn yn gyson â'r agenda Llesiant a Chynllun Llesiant Ceredigion, ac mae'n ystyried Cynllunio Rheoli Cyrchfan ar gyfer twristiaeth ledled Canolbarth Cymru.

1.1.3 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion 2013-20 yn nodi cynnyrch twristiaeth Ceredigion yn adran 8a. Mae'n disgrifio yn arbennig yr ansawdd a'r cyfle a gynigir gan ardal arfordirol Ceredigion yn ogystal â'r potensial i greu pecynnau deniadol ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr ar sail thema. Mae themâu yn canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig ar draws y sir ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau awyr agored, bwyd a diod, treftadaeth ddiwydiannol a morol, ffydd, cerddoriaeth, y celfyddydau a chrefftau, llenyddiaeth ac iaith. Felly mae pecynnau twristiaeth yn canolbwyntio ar y lleoedd yng Ngheredigion lle y gellir dod o hyd i'r asedau hyn, gan ddarparu profiadau sy'n cynnig gwir 'ymdeimlad o le'.

1.1.4 Mae twristiaeth thema felly yn adnabyddadwy yn ofodol, gan alluogi cydnabyddiaeth yn nhermau cynllunio ar gyfer creu cydnerthedd cymunedol trwy greu lleoedd a diogelu asedau twristiaeth.

1.1.5 Prif gasgliadau'r papur hwn o ran twristiaeth yw:

a. Mae ymwelwyr dydd yn dominyddu'r farchnad dwristiaeth yng Ngheredigion.

Draft

b. Mae'r rhan fwyaf o atyniadau yng Ngheredigion yn gysylltiedig â thirwedd, hanes, treftadaeth a diwylliant yr ardal, a phrin yw'r rhai sydd ar raddfa i fod yn atyniadau ynddynt eu hunain. Mae hyn yn ychwanegol i'r ffaith bod eu defnydd yn cael ei ddylanwadu gan y tymhorau a'r tywydd. Felly dylai unrhyw ddatblygiadau newydd ddathlu asedau Ceredigion ac ystyried yr un pryd yr ardal gyfagos gyda dim effaith niweidiol ar eu hamgylchedd.
c. Dylai cynllunio rheoli cyrchfan twristiaeth, ac yn arbennig 'Tyfu Canolbarth Cymru', lywio ffocws gofodol y polisi cynllunio twristiaeth. Gellid cyflawni hyn trwy gyfeirio at 'Dyfu Canolbarth Cymru' a'i dogfennau dilynol fel y ffocws strategol ar gyfer polisi cynllunio twristiaeth, gan gydnabod yn gadarnhaol y bwriadau buddsoddi mewn cyrchfannau â blaenoriaeth a diogelu yr un pryd nodweddion yr asedau sy'n eu gwneud yn unigryw ac yn rhai a werthfawrogir am eu hapêl i dwristiaid a'u potensial o ran cyfrannu at lesiant a chydnerthedd cymunedol.
d. Byddai cyfeiriad ychwanegol at asedau diwylliannol/treftadaeth yn yr amcan twristiaeth yn adlewyrchu'n well y nodau llesiant ar gyfer Ceredigion trwy'r bolisïau sy'n bodoli ar gyfer twristiaeth, ac mae rheoli datblygu yn gyffredinol yn rhoi sylw i ymateb cadarnhaol a'r mesurau diogelu priodol.
e. Mae angen i gynigion ar gyfer newid defnydd (i ffwrdd o dwristiaeth) gael eu hystyried yn ofalus, yn enwedig pe byddent yn arwain at golli cyfleusterau lleol pwysig. Yn gyffredinol caiff newid defnydd o lety twristiaeth ar ffurf carafannau statig, chalets neu gabanau i lety preswyl parhaol eu gwrthod.
f. Gallai polisi cyfredol y CDLl gael ei wella mewn rhai agweddau. Mae'r papur hwn yn cynnig:
   - opsiynau ar gyfer adolygu'r diffiniad o'r ardal arfordirol
   - ystyried y tueddiadau twristiaeth diweddaraf, e.e. glampio
g. Yn ogystal â'r polisïau Twristiaeth cyfredol, mae polisïau rheoli datblygu cyffredinol yn berthnasol ac yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel rhai sy'n addas i'r diben (DM01, DM03, DM04, DM06, DM10 a DM17 yn arbennig). Mewn perthynas â thwristiaeth, dylai'r polisïau hyn

Draft

fod yn destun datganiad o dir cyffredin na ddylid ailymweld â hwy o ran y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl2.

Drafft

# 2. Cyflwyniad

2.1.1 Roedd y Papur Pwnc Twristiaeth (Rhagfyr 2011) wedi ystyried y rôl sydd gan dwristiaeth i'w chwarae yng Ngheredigion o ran anghenion twristiaeth cyfredol hysbys, elfennau twristiaeth cyfredol sydd yn eu lle, a'r cyfleoedd sydd ar gyfer datblygu twristiaeth.

2.1.2 Yna defnyddiwyd yr wybodaeth hon i benderfynu ar y materion allweddol a allai gael sylw yn y CDLl, amcanion twristiaeth, ac yn olaf wrth ddatblygu polisïau.

## 2.2 Cefndir i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

2.2.1 Roedd casgliadau'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi tanio adolygiad o'r cynllun a llywio'r gwaith o gwblhau Adroddiad yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn Nhachwedd 2017.

## 2.3 Rôl y papur hwn

2.3.1 Mae'r papur hwn yn ystyried beth sydd wedi newid ers i'r Papur Pwnc Twristiaeth gwreiddiol gael ei ryddhau yn 2011, ac a oes angen diweddariad mwy manwl i drafod unrhyw faterion sydd wedi codi. Os felly caiff y diweddariad mwy manwl ei gorffori o fewn y papur hwn.

Draft

# 3. Tabl diweddaru

3.1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau sydd wedi digwydd neu faterion sydd wedi codi mewn perthynas â thwristiaeth. Gall y rhain fod yn newidiadau mewn/polisïau, strategaethau newydd ac ati, newidiadau mewn/tystiolaeth neu wybodaeth newydd, neu'n faterion sydd wedi codi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau.

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau Monitro Blynyddol | Perfformiad Dangosydd 8a yr Adroddiad Monitro Blynyddol | 2014, 2015, 2016, 2017 a 2018 | Dim angen ymchwilio pellach. | Mae Amcan 8a – Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion, wedi cael ei fonitro'n flynyddol ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae'r dangosydd hwn wedi cael ei asesu fel 0 – Nid yw'r targedau yn cael eu cyflawni, ond nid oedd unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau yn 2014, 2015, 2016, 2017 a 2018. Yn ôl Adroddiad Monitro Blynyddol 2018, cafwyd lleihad amlwg yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros (yn ôl adroddiad STEAM 2016), nid yw hyn i'w weld yn | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | unigryw i Geredigion. Nid yw'r cynllun wedi cael llawer o effaith ar nifer y twristiaid ac at ei gilydd roedd y newidiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn niwtral. Ystyriwyd bod y gyfres o bolisïau twristiaeth yn y CDLl yn cefnogi'r amcan ac yn parhau'n addas i'r diben. | |
| Deddfwriaeth newydd | Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) | 2013 | O bosib | Mae'r Ddeddf yn cydnabod ac yn derbyn bod rhai pobl yn dewis gwneud eu cartrefi ar barciau preswyl. Fe'i lluniwyd i helpu i wella dulliau rheoleiddio'r diwydiant, fel bod amodau ar safleoedd cartrefi symudol yn cael eu gwella ac mae hawliau preswylwyr yn cael eu diogelu'n well.<br><br>Yn bennaf mae'n ymwneud â thrwyddedu rheoleiddiol, er y cyfeirir at 'Safonau Enghreifftiol' ar gyfer cynllun safleoedd, ond heb eu cyfuno yn y Ddeddf.<br>Ydy paragraff olaf Polisi LU14 yn addas at ddibenion | O bosib |

Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogydd** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymarferol ac yn addas mewn egwyddor? A ddylem ni barhau i beidio â chaniatáu newidiadau defnydd i ddefnydd preswyl parhaol neu yn hytrach gwrthod 'newidiadau o lety gwyliau i breswyl' yn y rhan fwyaf o achosion gydag elfen seiliedig ar feini prawf i'r polisi? Fyddai'n delio â 'lleoliad', fyddai'n delio â 'graddfa', fyddai'n cyfeirio at gynllun/ychwanegu at ystyriaethau cynllun/goblygiadau capasiti tirwedd ar gyfer defnydd preswyl trwyddedig? | |
| | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Ebrill 2015 | Angen ystyriaeth bellach | Yn fyr, mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob prosiect, polisi a chynllun ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ie |



Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Ddeddf yn rhoi 7 nod llesiant yn eu lle:<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang<br>Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>Y nodau sy'n fwyaf perthnasol i dwristiaeth yw Cymru lewyrchus (mae twristiaeth yn allweddol i gyflogaeth) a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (gwarchod diwylliant a threftadaeth fel ffordd o greu cyfleoedd twristiaeth).<br><br>Mae'r nodau hyn yn cael eu cadarnhau i raddau trwy'r polisïau cyfredol o fewn y CDLl. Efallai y bydd angen | |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mireinio Amcanion y CDLl (Amcanion 2 a 4) i roi sylw i'r nodau. | |
| Deddfwriaeth newydd | Deddf Cynllunio (Cymru) | Gorffennaf 2015 | Dim angen ymchwilio pellach. | Mae'r Ddeddf yn amlinellu cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru gan sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn a'i bod yn galluogi datblygu. Mae'r Ddeddf yn cael ei hategu gan newidiadau cyfredol ac arfaethedig i ddeddfwriaeth eilaidd, polisi a chyfarwyddyd. Mae'n darparu cyfleoedd i warchod a gwella amgylcheddau naturiol pwysig. | Na |
| Deddfwriaeth newydd | Polisi Cynllunio Cymru 10 | Rhagfyr 2018 | Angen ymchwilio pellach. | Mae hwn yn adolygiad cyflawn o bolisi cynllunio cenedlaethol – ymateb cynllunio cenedlaethol i Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'r pwyslais ar greu lleoedd. Y prif oblygiadau yw:<br><br>'Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o safon | Ie |

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | uchel sydd wedi'u lleoli a'u dylunio'n dda. Dylent ystyried maint a dosbarthiad eang atyniadau presennol ac arfaethedig i dwristiaid. Dylent sicrhau bod modd darparu datblygiadau cyflenwol megis llety a mynediad mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar yr effeithiau amgylcheddol negyddol yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd i wella bioamrywiaeth' td 85<br><br>Efallai na fydd mathau o ddatblygiadau dros dro yn cael effeithiau niweidiol ar nodweddion arfordirol neu newid arfordirol, ond maent yn cynnig cyfle i hwyluso gweithgareddau seiliedig ar dwristiaeth. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod risgiau megis llifogydd yn gallu cael eu rheoli'n dderbyniol, yn enwedig ar gyfer defnyddiau sensitif lle y gall fod yn rhesymol i feddianwyr ddisgwyl bod yn ddiogel rhag perygl arfordirol... Dylid rhoi ystyriaeth i warchod cydnerthedd amgylcheddau o'r fath, td 144. | |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth newydd | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) | Mawrth 2016 | Dim angen ymchwilio pellach. | Mae'r Ddeddf yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen yn ei lle i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'n cynnig modd i ni:<br><br>Wynebu'r heriau amgylcheddol a gyflwynir a chanolbwyntio ar y cyfleoedd a gynigir gan ein hadnoddau;<br>• Sefydlu'r targedau lleihau allyriadau statudol a chyllidebu carbon i ategu eu cyflenwi;<br>• Gwella prosesau rheoli gwastraff; ac<br>• Egluro'r gyfraith ar gyfer trefniadau rheoleiddio amgylcheddol gan gynnwys rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn, trwyddedu morol, rheoli'r perygl o lifogydd a draenio tir. | Na |

Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogydd** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Datganiad Ardal Canolbarth Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru | Yn cael ei ddatblygu | Briff gwylio ar gyfer drafftiau sy'n cael eu cyhoeddi. | Nod y datganiad newydd yw nodi'r buddion (gwasanaethau ecosystem) a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol.<br><br>Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag eraill i nodi sut y gall y Datganiad Ardal roi sylw i'r Blaenoriaethau Cenedlaethol allweddol ar gyfer gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a gwireddu'r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol Canolbarth Cymru yn well.<br><br>Bydd y sylfaen dystiolaeth newydd a dadansoddiad o flaenoriaethau cenedlaethol o ddefnydd ymarferol ac yn gyd-destun polisi ar gyfer y CDLl mewn perthynas â thwristiaeth os yw'n amserol o ran paratoi'r cynllun. | O bosib |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth newydd | Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) | 2016 | Angen ymchwilio pellach. | Mae'r Ddeddf, yn ogystal â rhoi mwy o ddiogelwch effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar yr amgylchedd hanesyddol, hefyd yn gwella rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol, gan wneud Cymru yn genedl arweiniol sy'n gwarchod a gwella ei hasedau treftadaeth. Ceir sawl prosiect treftadaeth a fydd yn dod â buddion economaidd-gymdeithasol ehangach i ardal Canolbarth Cymru, yn arbennig i Geredigion, megis yr Heritage Exploratorium arfaethedig yn Llanbedr Pont Steffan dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, adnewyddu Hen Goleg Prifysgol Aberystwyth, a'r prosiect arfaethedig yng Nghanolfan Strata Florida sy'n brosiect o bwysigrwydd cenedlaethol. Dylid gwneud archwilaidaui sicrhau bod polisïau a dyraniadau'r CDLl yn addas i'r diben yn | Ie |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | barod ar gyfer unrhyw ddatblygiadau twristiaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol – yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw lety twristiaeth posibl a datblygiadau 'gweithgareddau' dilynol. | |
| TAN newydd Polisi Cynllunio Cymru | TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol | Mai 2017 | Angen ymchwilio pellach. | Mae'r TAN newydd yn darparu canllawiau penodol ar sut y dylai agweddau amrywiol ar yr amgylchedd hanesyddol gael eu hystyried, gan gynnwys henebion cofrestredig, parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau hanesyddol ac 'Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' Adran 8. O ran yr olaf, mae'n datgan os hoffai awdurdod lleol hyrwyddo ased o'r fath, dylai'r CDLl nodi nodweddion yr ased a chynnwys polisïau ar gyfer eu gwarchod a'u gwella. Gall y TAN fod yn arbennig o berthnasol i'r ffocws twristiaeth ar asedau hanesyddol penodol yn y sir. Dylid ystyried y goblygiadau ar gyfer polisïau neu ddyraniadau | Ie |

Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogydd** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | twristiaeth y CDLl yn hyn o beth. | |
| Galwad am Dystiolaeth | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd Tyfu Canolbarth Cymru (GMW) | 2018 | Briff gwylio ar gyfer drafftiau sy'n cael eu datblygu. | Mae hon yn ddogfen bwysig iawn sy'n cael ei datblygu ar gyfer llywio polisïau cynllunio twristiaeth yng Ngheredigion. Mae'n darparu trosolwg strategol Cymru o'r pynciau sydd o dan ystyriaeth ar gyfer gwella economi Canolbarth Cymru, gan gyfeirio at ddeddfwriaeth briodol a gwella cynnig twristiaeth Canolbarth Cymru yn gyffredinol trwy arddangos y posibiliadau ar gyfer twristiaeth antur, arfordirol a threftadaeth a chefnogi cynigion i wireddu'r uchelgeisiau hyn. Ar hyn o bryd mae'r fargen twf yn parhau i gael ei thrafod, felly nid yw cynlluniau pendant ar gael eto, ond bydd y CDLl yn sicrhau na fydd unrhyw bolisïau yn llesteirio'r uchelgeisiau hyn yn y dyfodol. | O bosib |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Dogfennau polisi lleol newydd heb fod yn ddogfennau cynllunio | Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 Mai 2018 | | Adolygu amcanion a pholisi'r CDLl yn erbyn nodau llesiant lleol. | Mae Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion yn seiliedig ar y prif egwyddorion o gydnerthedd cymunedol ac unigol, ac mae'n nodi 6 nod llesiant sy'n bwriadu cefnogi ei gilydd. Mewn perthynas â thwristiaeth, y nodau cydnerthedd cymunedol yw'r rhai y mae'n rhaid i amcanion y CDLl gyfateb â hwy. Y blaenoriaethau yw:<br>• Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd.<br>  o (Gwella'r seilwaith ffisegol a digidol i gefnogi datblygiad economaidd...)<br>• Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn<br>  o (Datblygu a chynnal....cyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol....)<br>• Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel | Ie |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd<br>o (Helpu cymunedau i wella eu perthynas â'r amgylchedd naturiol a pharatoi ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol). | |
| Y strategaeth twristiaeth ranbarthol ddiweddaraf ar gyfer Canolbarth Cymru wedi'i rhyddhau | Strategaeth Twristiaeth Ranbarthol Canolbarth Cymru | Mehefin 2011 | Dim angen unrhyw ymchwilio pellach. | Mae'r strategaeth hon yn ystyried materion rhanbarthol a'r ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â nhw o ran twristiaeth. Mae'n ddogfen strategol lefel uchel ac nid yw'n groes i bolisïau twristiaeth cyfredol y CDLl. Caiff ei disodli gan Dyfu Canolbarth Cymru. | Na |
| Strategaeth Twristiaeth ddiweddaraf | Partneriaeth Twf Strategaeth ar gyfer | Mehefin 2013 | Dim angen ymchwilio pellach. | Mae'r strategaeth hon yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n darparu ffocws strategol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a fydd yn helpu i gryfhau ein gallu i | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru wedi'i rhyddhau | Twristiaeth 2013 – 2020 Llywodraeth Cymru | | | gystadlu ac yn gwella perfformiad y sector twristiaeth yng Nghymru. Mewn perthynas â'r goblygiadau o ran y defnydd o dir, mae'n pwysleisio datblygu cynnyrch sy'n canolbwyntio ar hynodrwydd lleoedd a chynllunio rheoli cyrchfan.<br><br>Mae'r Strategaeth yn ddogfen strategol lefel uchel gyda chydran ofodol sy'n llywio blaenoriaethau twristiaeth yn y dyfodol, ond nid yw'n groes i bolisïau twristiaeth sy'n bodoli yn y CDLl. | |
| Strategaeth Twristiaeth ddiweddaraf Ceredigion | Strategaeth Twristiaeth ac Economi Ymwelwyr Ceredigion 2011-2020 | Mehefin 2011 | Dim angen ymchwilio pellach. | Hon yw'r strategaeth dwristiaeth gyfredol ar gyfer Ceredigion ac mae'n adolygu'r dystiolaeth adeg cyhoeddi mewn perthynas â'r sefyllfa gyfredol. Mae'r strategaeth hon yn nodi pedwar amcan strategol i sbarduno gweithgaredd a llunio blaenoriaethau dros 5-10 mlynedd. Y blaenoriaethau yw: | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Annog mwy o bobl i ymweld â Cheredigion<br>• Buddsoddi mewn cynnyrch o safon a gweithlu twristiaeth medrus<br>• Mabwysiadu dangosyddion perfformiad realistig ar gyfer twristiaeth<br><br>Mae'r Strategaeth yn ddogfen strategol lefel uchel ac nid yw'n groes i bolisïau twristiaeth cyfredol y CDLl. Mae'n nodi bod y CDLl newydd yn ceisio cefnogi datblygu twristiaeth mewn modd cynaliadwy ond yn cyfyngu datblygu mwy o safleoedd carafannau ar yr arfordir. | |
| Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion wedi'i ryddhau | Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion 2013-2020 | 2013 | Angen ymchwilio pellach. | Yn arbennig o berthnasol i gynllunio'r defnydd o dir, mae adran 8a y ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu a phecynnu cynnyrch twristiaeth â ffocws, gan enwi a nodi asedau naturiol a diwylliannol | Ie. |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ceredigion, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth allfrig a phob tywydd, lle mae bwlch yn y ddarpariaeth yn y sir ar hyn o bryd. Dylai'r polisïau CDLl gael eu hailystyried gyda'r adran benodol hon mewn cof, er mwyn asesu a ydynt yn debygol o ddarparu cyd-destun rheoli datblygu cadarnhaol ac effeithiol ar gyfer yr uchelgeisiau twristiaeth a nodir yn y ddogfen. | |
| Strategaeth Adfywio Ceredigion wedi'i rhyddhau | Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adfywio Economaidd 2014-2020 | Mehefin 2015 | Angen ymchwilio pellach. | Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau a wynebir yn y sir. Mae amcan strategol (C) 'Gwneud y Gorau o'n Diwylliant a'n Treftadaeth' yn ceisio cynyddu nifer y safleoedd lle y gellir cael mynediad i ddiwylliant a threftadaeth, nifer y bobl sy'n cael mynediad iddynt a nifer y busnesau sy'n gysylltiedig â nhw. Mae polisïau rheoli datblygu'r CDLl yn gyson ar y cyfan â rheolaeth ofalus o ddatblygu ar | ' |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfer twristiaeth a allai effeithio ar safleoedd treftadaeth. Gall fod yn briodol i gyfeirio mewn polisïau at y blaenoriaethau twf twristiaeth strategol a nodir yn 'Tyfu Canolbarth Cymru', a dogfennau etifeddol y gellir cydnabod datblygu priodol oddi danynt. | |
| | Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru | Medi 2016 | Dim angen gweithredu | Mae'r arolwg hwn yn mesur perfformiad y sectorau llety ar draws y sir, gan gasglu data o amrywiaeth o fusnesau yn fisol. Nid yw'r data yn datgelu unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn cyfraddau deiliadaeth ac eithrio cyfraddau carfannau statig/cartrefi gwyliau (arfordirol) sydd i fyny 26% o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf, a charfannau statig/cartrefi gwyliau (mewndirol) sydd i lawr 10%.<br><br>Er bod yr arolwg hwn yn darparu rhai ystadegau defnyddiol, mae twristiaeth yn cynghori nad yw'r set | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ddata hon yn berthnasol i Geredigion a dylai deiliadaeth gael ei hystyried o'r arolwg stoc gwelyau yn unig. | |
| | Arolwg Stoc Gwelyau Ceredigion a Phowys 2015-16 Adroddiad Cynllun Prosiect | | Angen ystyriaeth bellach | Mae'r prif ffigurau stoc gwelyau ar gyfer y flwyddyn 2015 fel a ganlyn.<br><br>Ffigurau cychwynnol arolwg stoc gwelyau 2015 Ceredigion. | Ie |

Draft

Draft

<table>
<tr><th>Mater Adolygu / Newid Arfaethedig</th><th>Ffynhonnell/ Ysgogydd</th><th>Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)</th><th>Gweithredu</th><th>Sylwadau pellach</th><th>Angen Adolygu'r Papur Pwnc?</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td>
<table>
<tr><th>Sector</th><th>Nifer y safleoedd</th><th>Lleoedd gwely</th><th>% lleoedd gwely</th></tr>
<tr><td>Carafannau a gwersylla</td><td>165</td><td>22869</td><td>71.15%</td></tr>
<tr><td>Hosteli/grŵp</td><td>21</td><td>2856</td><td>8.79%</td></tr>
<tr><td>Hunanddarpar</td><td>662</td><td>3732</td><td>11.49%</td></tr>
<tr><td>Llety â gwasanaeth</td><td>264</td><td>2910</td><td>8.96%</td></tr>
<tr><td>Amgen</td><td>18</td><td>112</td><td>0.34%</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td></td><td>32479</td><td>100%</td></tr>
</table>
</td><td></td></tr>
<tr><td>Adroddiad diweddaraf STEAM wedi'i ryddhau</td><td>Adroddiad STEAM 2017</td><td>2017</td><td>Angen ystyried y polisi ymhellach</td><td>Mae adroddiad diweddaraf STEAM 2017 yn dod i gasgliadau tebyg i adroddiad 2016, gan ddangos lleihad pellach o 2% yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros, ond cynnydd bach yn gyffredinol (0.9%) yn nifer yr ymwelwyr ar gyfer 2017 o'i gymharu â 2016.</td><td>Ie</td></tr>
</table>

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canlyniadau:<br>Cyfanswm o 2.74 miliwn o ymwelwyr (i fyny 0.9% o'i gymharu â 2016), gan gynnwys:<br>• 1.21 miliwn o ymwelwyr sy'n aros (-2% o'i gymharu â 2016), gan gynnwys:<br>• 194,760 o ymwelwyr mewn llety â gwasanaeth (i fyny 4% o'i gymharu â 2016)<br>• 897,950 o ymwelwyr mewn llety heb wasanaeth (-1.7% o'i gymharu â 2016)<br>• 114,520 o ymwelwyr yn aros gyda ffrindiau neu berthnasau (-0.7% o'i gymharu â 2016)<br>a<br>• 1.53 miliwn o ymwelwyr dydd (i fyny 3.3% o'i gymharu â 2016)<br><br>Fodd bynnag, gall y lleihad pellach yn nifer yr | |

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell/ Ysgogydd** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymwelwyr sy'n aros fod yn rheswm dros ystyried newidiadau mewn cynhyrchion llety, ac a yw'r rhain yn cael eu darparu ar eu cyfer gan amcanion a pholisïau twristiaeth y CDLl. Y flaenoriaeth ar gyfer cynllunio yw cynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n aros oherwydd ceir cyfran rhy fawr o hyd o ymwelwyr dydd/ymwelwyr gwerth is yng Ngheredigion. | |
| Gweithredu a defnyddio'r polisi | Swyddogion Rheoli Datblygu | Parhau | Angen ystyried y polisi ymhellach | Roedd cyfarfodydd â'r Swyddogion Rheoli Datblygu a'r Rheolwr Twristiaeth yn Ionawr 2017 wedi nodi rhai problemau ynghylch gweithredu a defnyddio'r polisi o ran gofynion lleoliadol mewndirol (Polisi LU14), cyfleusterau 'gwyllt a gwlyb' (Polisi LU17) a llety amgen (h.y. glampio). Dylid ystyried y materion polisi sydd wedi codi a diwygio'r polisïau yn unol â hynny.<br><br>O ran cynigion hamdden/adloniant ar raddfa fawr bydd | Ie |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn gyson â'r polisi twristiaeth strategol i groesawu cynigion o'r fath a'r potensial ar gyfer profiad twristiaeth proffil uwch sy'n absennol yng Ngheredigion ar hyn o bryd. Byddai Polisi LU17 a'r amrywiaeth o bolisïau rheoli datblygu ar gyfer gwarchod asedau naturiol a threftadaeth, mynediad a chynhyrchu teithiau i'w gweld yn ddigonol er mwyn gallu delio'n gadarnhaol ac yn adeiladol â chynigion o'r fath.<br>Yn ogystal, mae angen ystyried:<br><br>Penderfyniadau apêl diweddar sy'n awgrymu y byddai angen safon uchel o dystiolaeth/cyfiawnhad o angen a dyluniad cynnig er mwyn bod yn groes i'r TAN 6 cyfredol a'r polisi twristiaeth LU14 lleol. Gall fod yn briodol i ystyried ychwanegu eglurhad bach i gyfiawnhau peidio â chaniatáu cynigion llety twristiaeth o fewn cwrtilau domestig er mwyn hwyluso gwneud | |

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | penderfyniadau, ond dim ond os teimlir bod hynny'n briodol.<br><br>Fel arall, yng nghyd-destun yr angen am bolisi ar gyfer 'glampio', mae awdurdodau lleol eraill wedi creu polisi sy'n esbonio sut y gallai datblygiad neu ddefnydd tir o natur 'dros dro' fod yn briodol mewn rhai lleoliadau lle na fydd datblygiadau twristiaeth mwy parhaol yn briodol o bosibl. Gellir ystyried ymhellach caniatáu datblygiadau tebyg trwy gyfrwng meini prawf polisi twristiaeth a diffiniad clir at ddibenion cynllunio yng Ngheredigion o 'adeiledd dros dro' mewn perthynas â llety twristiaeth. Ar hyn o bryd mae confensiwn rheoli datblygu Ceredigion yn dibynnu ar ddiffiniad geiriadur Rhydychen o babell, sef 'cysgod cludadwy wedi'i wneud o liain a'i gynnal gan un neu ragor o bolion ac wedi'u hymestyn yn dynn gan gordiau neu ddolenni | |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi'u hatodi i begiau wedi'u gosod yn y ddaear', ac yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol sy'n datgan y byddai pod gwersylla wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad cyfreithiol o garafán yn hytrach na phabell.<br><br>Yn y dyfodol gall fod yn werth ystyried a ddylai barn yr awdurdod ar bodiau gwersylla fod yn wahanol i'w barn am garafannau. Mae rhai awdurdodau, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd, wedi mabwysiadu'r farn bod podiau o'r fath yn gallu bod yn weddol ddisylw o'i gymharu â charafannau (ac yn wir pebyll mewn lliwiau llachar) mewn ardaloedd coetiroedd. Mae lle i ystyried ystod gyfan o adeileddau yn fwy manwl mewn Canllawiau Cynllunio Atodol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o adeileddau sy'n cael eu cynnwys mewn cynigion glampio, ond gallai polisi ddarparu gwahaniaeth trosfwaol defnyddiol rhwng | |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 'defnydd tir yn unig' a 'datblygiad gweithredol' o natur dros dro a pharhaol, mewn perthynas â llety twristiaeth cyfanheddol ac effeithiau amrywiol sy'n eu gwneud nhw'n fwy neu'n llai addas ar gyfer rhai lleoliadau nag eraill. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol defnyddiol a diddorol iawn gan Drefynwy a allai gynorthwyo o ran mabwysiadu agwedd newydd at y tueddiadau newidiol. | |
| Cyfranogiad aelodau | Trafodaethau gweithgor y CDLl | Parhau | Angen ystyried y polisi ymhellach | Materion a gododd yng Ngweithgor y CDL.<br><br>Arfordirol yn erbyn heb fod yn arfordirol wedi'i ddiffinio gan y brif ffordd.<br>Mae defnyddio'r A487 i ddiffinio ardal arfordirol yng Ngheredigion at ddibenion polisi twristiaeth yn baramedr polisi hanesyddol. Mae achos i'w wneud dros gael sylfaen dystiolaeth ar gyfer y diffiniad o ardal arfordirol. Gyda dyfodiad methodolegau asesu capasiti | Ie |



Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | tirwedd, gall fod yn briodol i ailystyried y diffiniad.<br><br>Gall yr opsiynau i'w trafod mewn perthynas ag ymarfer asesu capasiti tirwedd arfaethedig gynnwys:<br>Profi priodoldeb llinell ffin yr A487 yn erbyn ffiniau ardaloedd nodwedd Landmap.<br><br>Ystyried a phrofi (asesiad capasiti tirwedd) ardal ystod band yn gyfochrog â'r arfordir i bellter sy'n hafal i'r paralel lletach rhwng yr arfordir a'r A487.<br>Ehangu'r ymarfer asesu capasiti tirwedd i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth arfordir a'r dyffryn afon a chymhwyso'r polisi ar gyfer datblygu priodol i leoliadau priodol yn ôl dull asesu capasiti carafannau PNCP, ond ystyried canllawiau Trefynwy ar gyfer effeithiau twristiaeth 'dros dro' fel rhan o'r dull. | |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Fel uchod, ond ymgymryd â'r ymarfer ar gyfer y sir gyfan.<br><br>Byddai ymarfer o'r fath yn galluogi'r Cynllun Datblygu Lleol, gyda manylion pellach mewn Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig, i gynnig cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr twristiaeth ynghylch pa fath o ddatblygiad neu ddefnydd llety twristiaeth allai fod yn briodol ym mha ardaloedd/ym mha leoliadau yn achos cynigion cysylltiedig â threftadaeth/yr amgylchedd adeiledig.<br><br>Fel arall, trwy neilltuo llai o adnoddau amser a chyllid, gallai'r polisi presennol gael ei amrywio gyda gofyniad ar gyfer Asesiad o Effaith Weledol a Thirwedd ar gyfer cynigion ger yr arfordir ond sydd heb fod o fewn y ffin fel y'i diffinnir ar hyn o bryd. | |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogiad aelodau | Trafodaethau gweithgor y CDLl | Mawrth 2017 | Dim angen ystyriaeth bellach. | Dylai llety gwyliau allu gael eu haddasu i fod yn llety rhent fforddiadwy os nad ydynt yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau mwyach.<br><br>Yn anffodus, mae addasu bythynnod gwyliau a danddefnyddir i fod yn llety rhent fforddiadwy yn debygol o greu tai ar gyfer trigolion mwyaf agored i niwed yn y lleoliadau lleiaf hygyrch, yn bell o wasanaethau a lle mae cysylltiadau trafnidiaeth yn gostus neu'n wael er mwyn ateb anghenion bob dydd, mynediad i ysgolion a chyflogaeth ac ati. | Na |
| Y wasg | Y fenter O'r Mynydd i'r Môr | Tachwedd 2018 | Angen ystyried y polisi ymhellach | Mae O'r Mynydd i'r Môr yn fenter i adfer ecosystemau ffyniannus ac economi leol gydnerth ar raddfa nas welwyd erioed o'r blaen ym Mhrydain.<br><br>Mae cynnig llwyddiannus i'r Rhaglen Tirweddau mewn | Ie |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Perygl yn golygu bod £3.4 miliwn o gyllid wedi'i ddiogelu ar gyfer y fenter O'r Mynydd i'r Môr dros gyfnod o bum mlynedd.<br><br>Bydd y prosiect yn dwyn ynghyd un ardal ddi-fwlch, llawn natur, yn ymestyn o fryniau Pumlumon i lawr trwy gymuned goediog i aber Dyfi, ac allan i Fae Ceredigion. O fewn pum mlynedd bydd yn cynnwys o leiaf 10,000 hectar o dir a 28,400 hectar o'r môr.<br>Bydd O'r Mynydd i'r Môr yn cynnwys:<br>• adfer prosesau naturiol sy'n darparu'r gweithrediadau ecolegol rydym ni i gyd yn dibynnu arnynt<br>• dod â chymunedau at ei gilydd i greu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol<br>• helpu'r economi leol er mwyn arallgyfeirio a sefydlu mentrau newydd seiliedig ar fyd natur. | |



Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'n ymddangos bod y prosiect yn gyson â nodau'r Cynllun Llesiant a Strategaeth Twristiaeth a Chynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion. Mae'r cyhoeddusrwydd ar gyfer y cynllun wedi'i ariannu yn awgrymu y gallai gynnwys creu canolfan ddehongli ym Maesnant, yn agos i Gronfa Ddŵr Nant-y-moch. Dylid ystyried cysylltu â grŵp llywio'r prosiect i bennu graddfa unrhyw faterion defnydd tir sy'n gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys cynigion penodol ac uchelgeisiau ehangach. | |
| Effaith Airbnb ar dwristiaeth yng Ngheredigion | Tueddiadau twristiaeth newydd | | Dim angen gweithredu pellach ar hyn o bryd | Dim tystiolaeth o effaith hyn yng Ngheredigion eto, e.e. tai cyfan neu ystafelloedd? (Mae ymchwil academaidd yn dangos bod rhentu ystafelloedd Airbnb yn anghymesur ymysg y rhai nad ydynt yn berchen ar eiddo/yn rhentu eiddo: rhentu tai cyfan yn digwydd mewn ardaloedd mwy llewyrchus – Llundain). Yn yr | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell/ Ysgogydd | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Alban ac mewn mannau eraill, gwnaethpwyd penderfyniad i gyfyngu nifer y diwrnodau Airbnb y gellir eu defnyddio heb ganiatâd cynllunio. Mae'n ddoeth cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn nodi unrhyw ardaloedd sy'n cael eu heffeithio'n negyddol gan dueddiadau o'r fath. | |

Draft

# 4. Y Cyd-destun Lleol

## Cefndir

4.1.1 Mae'r Papurau Pwnc a ysgrifennwyd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau 2007-2022 yn rhoi mwy o fanylion am dwristiaeth yn y sir. Mae'r manylion hyn yn parhau'n berthnasol ac felly ni chânt eu hailadrodd yma. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn crynhoi sut mae gwybodaeth yn y Papur Pwnc 2010 gwreiddiol wedi dylanwadu ar gynhyrchu'r CDLl cyfredol a'i gynnwys.

4.1.2 O'r sylfaen dystiolaeth, cafodd nifer o faterion eu nodi a allai fod yn destun sylw, o leiaf yn rhannol, yn y CDLl. Y materion yw;

a. Annog a datblygu twristiaeth gynaliadwy;
b. Hyrwyddo'r sir fel cyrchfan gwyliau trwy'r flwyddyn gron;
c. Cadw gwestai, gwestai bach a sefydliadau gwely a brecwast sy'n bodoli;
d. Cynnydd yn y ddarpariaeth hunanddarpar ac a oes gormod ohoni bellach;
e. Cydbwysedd yn y llety twristiaeth sydd ar gael;
f. Parhau ac o bosibl ymestyn yr embargo mewn perthynas â safleoedd carafannau;
g. Annog mynediad trwy ddulliau eraill heblaw trafnidiaeth breifat ac unrhyw broblemau cysylltiedig posibl â hyn;
h. Cyfleoedd ar gyfer bwyta allan;
i. Caniatáu datblygiad a diogelu'r amgylchedd naturiol yr un pryd; a
j. Chyflenwi strategaethau rhanbarthol/lleol.

4.1.3 Cafodd y materion hyn eu hymchwilio a'u cynnwys yn y Materion ac Amcanion Allweddol, ac yna cawsant sylw, lle'n bosibl, o fewn Polisïau'r CDLl.

## Y Sefyllfa Bresennol

4.1.4 Cafodd y CDLl ei fabwysiadu yn Ebrill 2013, mae pum Adroddiad Monitro Blynyddol wedi cael eu cwblhau, cafodd Adroddiad yr Adolygiad Strategol ei



Draft

gwblhau a'i gyhoeddi yn Nhachwedd 2017, a chafodd y Cytundeb Cyflenwi ei gadarnhau ym Mehefin 2018. Mae’r gwaith ar Gynllun newydd wedi dechrau. Mae'r Papur Pwnc Diweddaru yn cael ei lunio fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun newydd.

## 5. Materion Adolygu (Ysgogwyr)

5.1.1 Mae Tabl 1 yn Adran 3 yn crynhoi'r dadansoddiad o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, deddfwriaeth/cyfarwyddyd/polisi newydd neu wedi'i ddiweddaru, a thystiolaeth newydd neu wedi'i diweddaru neu faterion sydd wedi codi mewn perthynas â thwristiaeth. Os yw'r wybodaeth newydd yn gofyn am ystyriaeth bellach, rhoddir rhagor o wybodaeth isod.

## 6. Newidiadau mewn Deddfwriaeth a Pholisi

### Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

6.1.1 Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i helpu i reoleiddio'r diwydiant yn well, fel bod amodau ar safleoedd cartrefi symudol yn cael eu gwella ac mae hawliau preswylwyr yn cael eu diogelu'n well. Yn bennaf mae'n ymwneud â thrwyddedu rheoleiddiol, er y cyfeirir at 'Safonau Enghreifftiol' ar gyfer cynllun safleoedd, ond nid wedi'u gynnwys yn y Ddeddf.

6.1.2 Mae paragraff olaf Polisi LU14 yn ei gwneud hi'n glir na fyddai addasiadau preswyl yn briodol ar gyfer safleoedd gwyliau sy'n bodoli. Y rheswm am hyn yw oherwydd na chawsant eu cynllunio ar gyfer meddiannaeth breswyl lle nid oes lle parcio a mannau amwynder digonol ganddynt, ac fe'u lleolir yn aml mewn lleoliadau sy'n llai na chynaliadwy.

6.1.3 Felly dylem barhau i wrthod 'newidiadau o lety gwyliau i breswyl' yn y rhan fwyaf o achosion. Cydnabyddir gan y darparwyr gwasanaeth megis cynlluniau gofal a thrwsio y gall fod yn fwy anodd i sicrhau addasiadau o eiddo mewn cartrefi parc yn achos llesgedd ac anabledd nag y mae mewn cartrefi confensiynol. Fodd bynnag, gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y rhain fod yn gartref o ddewis i rai pobl, a fyddai'n briodol i gyflwyno

Drafft

polisi newydd a fyddai'n delio â chynigion ar gyfer cartrefi symudol o ran 'lleoliad', 'graddfa', cynllun a chapasiti tirwedd ar gyfer defnydd preswyl trwyddedig?

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 – Mai 2018

6.1.4 Erbyn hyn mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob prosiect, polisi a chynllun ystyried pedair colofn o gynaliadwyedd – llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

6.1.5 Mae'r Ddeddf yn edrych ar y nodau hirdymor ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gydnabod pwysigrwydd cydweithio â phobl a chymunedau i greu dull mwy cydgysylltiedig a chyfyngu ar broblemau. Mae'n rhoi yn ei lle yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n ystyried bod "rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain."

6.1.6 Mae saith nod llesiant wedi cael eu sefydlu:

Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

6.1.7 Mae'r nodau hyn yn cael eu cadarnhau i raddau trwy bolisïau ac amcanion y CDLl cyfredol. Roedd papur cefndir i'r adolygiad o'r CDLl, y Cynllun Datblygu Lleol a Llesiant, wedi ystyried yn fanwl pa mor dda y mae amcanion y CDLl cyfredol yn cysylltu â'r nodau llesiant cenedlaethol. Ystyriwyd mai amcanion 2 a 4 y CDLl oedd y rhai mwyaf perthnasol. Amcan y CDLl sy'n berthnasol i dwristiaeth yw Amcan 4 sy'n cyfeirio'n benodol at gyflawni amcan 2 mewn



Draft

perthynas â'r ffocws ar dwristiaeth, hynny yw – hyrwyddo sector twristiaeth gynaliadwy, ystyriol o'r amgylchedd, gydol y flwyddyn ledled Ceredigion, a bod y sector yn cael ei gynnal gan sylfaen llety dda sy'n darparu ar gyfer ystod eang o farchnadoedd ac yn darparu cyfleusterau amrywiol ar gyfer pob tymor. Felly roedd papur adolygu'r CDLl wedi arfarnu Amcan 3 y CDLl yn erbyn amcanion llesiant lleol cyfoes newydd. Daeth i'r casgliad cyffredinol y dylai Amcan 3 gael ei aralleirio i gynnwys llesiant a chaniatáu i ddatblygiadau yn y dyfodol ystyried y nodau Llesiant mewn modd priodol. Gwnaeth argymhellion penodol ar gyfer aralleirio Amcan 4 o'r CDLl. Fodd bynnag, roedd papur cefndir yr adolygiad o'r CDLl wedi gweithio ar y drafft ymgynghorol o'r Cynllun Llesiant Lleol sydd wedi cael ei ddisodli bellach gan Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 a gyhoeddwyd ym Mai 2018, lle mae'r 'amcanion' llesiant wedi cael eu trawsffurfio'n dryloyw yn 'Nodau' llesiant.

6.1.8 Yn sgil hyn, mae'r awgrymiadau penodol ar gyfer aralleirio yn y papur Cynllun Datblygu Lleol a Llesiant yn cael eu gwrthod, ac mae'r diweddariad hwn o'r Papur Pwnc wedi ail-arfarnu Amcan 4 y CDLl yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol ac yn erbyn Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023.

6.1.9 Byddai ail-arfarnu nodau llesiant cenedlaethol yn awgrymu'r canlynol:

| Allwedd | |
|---|---|
| Y Nod Llesiant wedi'i gyflawni | |
| Byddai'r Nod Llesiant yn gwella amcan y CDLl | |
| Y Nod Llesiant heb ei fodloni gan amcan y CDLl | |
| Y Nod Llesiant ddim yn berthnasol i amcan y CDLl | |

Draft

| | Nod Llesiant Cenedlaethol | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan 4 y CDLl | | | | | | | | |

6.1.10 Mae'r asesiad hwn yn gwyro mewn rhai agweddau o'r hyn a geir ym mhapur yr Adolygiad o'r CDLl. Mae perfformiad amcan y CDLl yn erbyn 'Cymru fwy cyfartal' wedi cael ei asesu yn wyrdd oherwydd, fel y mae wedi ei eirio ar hyn o bryd mae'n cefnogi cydraddoldeb ar gyfer cymunedau gwledig yn nhermau llesiant economaidd. Mewn perthynas â 'Chymru o Gymunedau Cydlynus', mae Amcan 4 wedi cael ei asesu yn wyrdd oherwydd mae'r amcan twristiaeth yn debygol o effeithio ar atyniad a hyfywedd cymunedau, a ddyfynnir yn berthnasol i ystyr 'cymunedau cydlynus'.

6.1.11 O ran 'Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu', mae'r asesiad yn felyn. Nid oes unrhyw gyfeiriad at dwristiaeth ddiwylliannol yn Amcan 4 fel y mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd. Fel y trafodir ymhellach isod, mae'r nod hwn wrth wraidd yr argymhellion ymarferol mewn strategaethau twristiaeth ar lefel Cymru, Canolbarth Cymru a Cheredigion. Dylai gael ei adlewyrchu yn Amcan 4 y CDLl ochr yn ochr â sôn am yr amgylchedd, yn arbennig oherwydd ei fod yn cwmpasu'r syniad o nodi 'lle' daearyddol clir ble y gellir dod o hyd i asedau naturiol a diwylliannol. Gall polisïau cynllunio defnydd tir o dan amcan o'r fath yn y CDLl gael eu harfarnu i asesu i ba raddau y maent yn gallu rhoi sylw cadarnhaol i faterion posibl seiliedig ar le, gan ddarparu dulliau rheoli datblygu cadarnhaol o'r asedau y gall twristiaeth gael ei datblygu arnynt.

6.1.12 Yn olaf, o ran 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang', cymerir, gan ddilyn egwyddorion Agenda 21, fod bodloni'r holl nodau eraill yn golygu bodloni'r nod hwn ar sail 'meddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol'.

Draft

6.1.13 Mae Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 yn seiliedig ar y prif egwyddorion o gydnerthedd cymunedol ac unigol ac yn nodi 6 nod llesiant sy'n bwriadu cefnogi ei gilydd. Mewn perthynas â thwristiaeth, y nodau cydnerthedd cymunedol yw'r rhai y bydd angen i amcanion y CDLl gyfateb â hwy. Y darnau perthnasol lle mae'r rhain yn cyd-fynd ag Amcan 4 y CDLl yw:

- Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd.
    - (Gwella'r seilwaith ffisegol a digidol i gefnogi datblygiad economaidd.....)
- Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn
    - (Datblygu a chynnal....cyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol....)
- Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd
    - (Helpu cymunedau i wella eu perthynas â'r amgylchedd naturiol....).

## Polisi Cynllunio Cymru 10, Rhagfyr 2018

6.1.14 Mae hwn yn adolygiad cyflawn o bolisi cynllunio cenedlaethol – ymateb cynllunio cenedlaethol i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'r pwyslais ar greu lleoedd. Nid yw unrhyw ystyriaeth bellach o bolisi yn ofynnol heblaw sicrhau bod y canllawiau cenedlaethol cywir yn cael eu dyfynnu yn y polisïau. Mae addasiadau yn seiliedig ar adolygiad yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi golygu nad oes angen archwilio sylwedd polisi yn sgil y canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf.

## Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

6.1.15 Mae'r Ddeddf, yn ogystal â rhoi mwy o ddiogelwch effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar yr amgylchedd hanesyddol, hefyd yn gwella rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol, gan wneud Cymru yn genedl arweiniol ym maes gwarchod a

Draft

gwella ein hasedau treftadaeth. Ceir sawl prosiect treftadaeth a fydd yn dod â buddion economaidd-gymdeithasol ehangach i ardal Canolbarth Cymru, yn arbennig i Geredigion, megis yr Heritage Exploratorium yn Llanbedr Pont Steffan dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, adnewyddu Hen Goleg Prifysgol Aberystwyth, a'r prosiect arfaethedig yng Nghanolfan Strata Florida, sy'n brosiect o bwysigrwydd cenedlaethol. Dylid gwneud archwiliadau i sicrhau bod polisïau a dyraniadau'r CDLl yn addas i'r diben er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw ddatblygiadau twristiaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol – yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw lety twristiaeth posibl a datblygiadau 'gweithgareddau' dilynol.

Draft

### TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol – Mai 2017

6.1.16 Mae'r TAN newydd yn darparu canllawiau penodol ar sut y dylai agweddau amrywiol ar yr amgylchedd hanesyddol gael eu hystyried, gan gynnwys henebion cofrestredig, parciau a gerddi treftadaeth, tirluniau hanesyddol ac yn Adran 8 'Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig'. Mewn perthynas â'r olaf, mae'n datgan os yw awdurdod lleol am hyrwyddo ased o'r fath, dylai'r CDLl nodi nodweddion yr ased a chynnwys polisïau ar gyfer eu cadw a'u gwella. Gall y TAN fod yn arbennig o berthnasol i'r ffocws twristiaeth ar asedau hanesyddol penodol yn y sir. Dylid ystyried y goblygiadau ar gyfer polisïau neu ddyraniadau twristiaeth y CDLl yn hyn o beth.

### Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion – Cyngor Sir Ceredigion 2013–2020

### Tyfu Canolbarth Cymru, dogfen newydd, Hydref 2018

6.1.17 Yn arbennig o berthnasol i gynllunio'r defnydd o dir, mae adran 8a o'r ddogfen Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion yn nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu cynnyrch a phecynnu twristiaeth â ffocws, gan enwi a nodi asedau naturiol a diwylliannol Ceredigion, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth allfrig a phob tywydd, lle mae bwlch yn y ddarpariaeth yn y sir ar hyn o bryd. Bydd y blaenoriaethau twristiaeth strategol yn cael eu mireinio ymhellach yn y ddogfen newydd 'Tyfu Canolbarth Cymru' a'i dogfennau

dilynol. Dylai polisïau'r CDLl gael eu hailystyried gyda'r dogfennau hyn mewn cof, er mwyn asesu a ydynt yn debygol o ddarparu cyd-destun rheoli datblygu cadarnhaol, effeithiol a chynaliadwy ar gyfer yr uchelgeisiau twristiaeth a amlinellir ynddynt.

### Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adfywio Economaidd 2014-2020 – Mehefin 2015

6.1.18 Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol a wynebir yn y sir. Mae amcan strategol (C) 'Gwneud y Gorau o'n Diwylliant a'n Treftadaeth' sy'n ceisio cynyddu nifer y safleoedd lle y gellir cael mynediad i ddiwylliant a threftadaeth, nifer y bobl sy'n cael mynediad iddynt a nifer y busnesau sy'n gysylltiedig â hwy yn awgrymu y dylai polisïau'r CDLl gael eu hailystyried i sicrhau rheolaeth gadarnhaol ond sensitif o ddatblygiadau twristiaeth a allai gael effaith ar safleoedd treftadaeth. Gall hyn gynnwys nodi ffynhonnell gwybodaeth am nodweddion y gellir cyfeirio mesurau lleddfu sensitif yn eu herbyn.

## 7. Tystiolaeth

7.1.1 Ers i'r CDLl gael ei adneuo, ystyrir bod y dystiolaeth ganlynol yn berthnasol i'r adolygiad o'r CDLl.

Draft

### Adroddiad STEAM 2017

7.1.2 Mae'r adroddiad STEAM diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2017 yn dangos, yn dilyn y cwymp a welwyd yn adroddiad 2016, bod cwymp pellach o 2% wedi bod yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros, ond cynnydd cyffredinol bach (0.9%) yn nifer yr ymwelwyr ar gyfer 2017 o'i gymharu â 2016, gan greu cynnydd canran bach (0.6%) yn yr effaith economaidd.

7.1.3 Canlyniadau:

Cyfanswm o 2.74 miliwn o ymwelwyr (i fyny 0.9% o'i gymharu â 2016), gan gynnwys:

1.21 miliwn o ymwelwyr sy'n aros (-2% o'i gymharu â 2016), gan gynnwys:

- 194,760 o ymwelwyr mewn llety â gwasanaeth (i fyny 4% o'i gymharu â 2016)
- 897,950 o ymwelwyr mewn llety heb wasanaeth (-1.7% o'i gymharu â 2016)
- 114,520 o ymwelwyr yn aros gyda ffrindiau neu berthnasau (-0.7% o'i gymharu â 2016)

a

- 1.53 miliwn o ymwelwyr dydd (i fyny 3.3% o'i gymharu â 2016)

7.1.4 Yr ymwelydd gwerth uchaf y pen fesul diwrnod yn 2017 yw'r ymwelydd sy'n aros mewn llety â gwasanaeth, gyda gwariant cyfartalog dyddiol y pen o oddeutu £80, o'i gymharu ag ychydig o dan £40 y pen fesul diwrnod o wariant i ymwelwyr sy'n aros mewn llety heb wasanaeth, ac ychydig dros £32 y pen fesul diwrnod ar gyfer ymwelwyr dydd.

7.1.5 Yr arhosiad cyfartalog mewn llety â gwasanaeth yw dau ddiwrnod, ond mae hyn bron dwbl y gwerth economaidd y pen fesul diwrnod o'r sector heb wasanaeth, lle mae'r arhosiad cyfartalog tua 6.5 diwrnod, ac yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r gwariant ymwelwyr cyfredol. Byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r sector llety â gwasanaeth, neu gynnydd yn hyd yr arhosiad, yn cael effaith weddol arwyddocaol yn nhermau economaidd. Mae gwella'r enillion economaidd o dwristiaeth yn flaenoriaeth bwysig 'Tyfu Canolbarth Cymru'.

7.1.6 At ei gilydd, dylai amcan a pholisïau twristiaeth y CDLl gael eu hadolygu gan gadw gwerth economaidd perthynol pob sector mewn cof, i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cynyddu ansawdd ac amrywiaeth llety twristiaeth yn gallu datblygu gyda'r nod o ail-gydbwyso cyfran y rhai sy'n aros ac ymwelwyr dydd a'r gyfran sy'n aros mewn llety cynnyrch uwch, yn ogystal â gwyrdroi'r duedd bresennol, sef lleihad cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros. Gall wneud hyn trwy archwilio tueddiadau/newidiadau mewn cynhyrchion llety ac a yw'r

Draft

rhain yn cael eu darparu ar eu cyfer gan amcan a pholisïau twristiaeth y CDLl cyfredol.[1]

7.1.7 Mae dadansoddiad mwy manwl o arosiadau ymwelwyr yn cael ei ddarparu yn ffigurau arolwg stoc gwelyau Ceredigion, gyda gwybodaeth gymharol ar gyfer Powys.

**Arolwg Stoc Gwelyau Ceredigion a Phowys 2015-16**

**Adroddiad Cynllun Prosiect Ceredigion, Arolwg Stoc Gwelyau 2015**

**Ffigurau a chanrannau rhagarweiniol o'u cymharu â Phowys**

| Sector | Nifer y safleoedd | Lleoedd gwely | % lleoedd gwely | % Lleoedd Gwely Cymharol ym Mhowys |
|---|---|---|---|---|
| **Carafannau a gwersylla** | 165 | 22869 | 71.15% | *68.53% |
| **Hosteli/grŵp** | 21 | 2856 | 8.79% | 3.82% |
| **Hunanddarpar** | 662 | 3732 | 11.49% | 11.02% |
| **Llety â gwasanaeth** | 264 | 2910 | 8.96% | 16.24% |
| **Amgen** | 18 | 112 | 0.34% | 0.39% |
| **Cyfanswm** | 1130 | 32479 | 100% | 100% |

7.1.8 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am y stoc gwelyau fel y nodir yn y tabl uchod yn dangos bod gan Geredigion nifer cyfyngedig iawn o leoedd gwely yn y llety enillion uchaf (tua hanner cyfran Powys), a chyfran fach iawn o leoedd gwely 'Amgen', sy'n awgrymu y gall y nifer sy'n dilyn tueddiadau

[1] Ffigurau o Adroddiad STEAM 2017, ffigur ar dudalen 5, 'Dosbarthiad yn ôl Math o Ymwelydd'. Fformiwla: [Effaith economaidd / nifer yr ymwelwyr]/[diwrnodau aros ar gyfartaledd fesul ymwelydd] = cyfartaledd y pen fesul diwrnod o wariant (yn ôl sector).



Draft

mwy newydd megis 'glampio' fod yn weddol isel – er y gall cyfran y lleoedd gwely ym Mhowys fod yn weddol debyg.

7.1.9 Yn wir, mae cymhariaeth hanesyddol yn y tabl isod yn dangos dirywiad yng nghyfran y lleoedd gwely 'amgen' ar gyfer Ceredigion ers 2013. O ran nifer, mae Powys yn agosach i ffigur cyfanswm cyflenwad lleoedd gwely Ceredigion na Sir Benfro, sy'n dair gwaith yn uwch na Cheredigion. Fodd bynnag, er bod gan Geredigion fwy na Phowys yn 2013 (205 o'i gymharu â 178[2]) a nifer tebyg o leoedd gwely â Sir Benfro (215), mae'r nifer hwn wedi lleihau'n sylweddol yn 2015-16 to 112. Rhaid rhoi hyn yng nghyd-destun dirywiad bach yn ffigur cyfanswm lleoedd gwely Ceredigion rhwng 2013 a 2015-16, gyda'r sector hosteli a llety â gwasanaeth yn unig yn gweld ychydig bach o gynnydd.

Drafft

[2] Ffynhonnell: https://gov.wales/statistics-and-research/accommodation-bedstock/?lang=en Tabl td 4, 'Nifer y Llety Lleoedd Gwely fesul Categori'

**Newid yn Stoc Gwelyau 2015-16 Ceredigion yn erbyn gwaelodlin 2013, gyda chyd-destun gwaelodlin 2013 ar gyfer awdurdodau cyfagos (Data Stoc Gwelyau Cymru, Mawrth 2013)**

| | **Arolwg Stoc Gwelyau Cymru 2013 % dosbarthiad sector fesul sir*** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llety Sector** | Sir Gaerfyrddin | Sir Benfro | Powys | Ceredigion | **Ceredigion % lleoedd gwely 2015-16** |
| **Carafannau a gwersylla** | 63.08% | 71.86% | 66.50% | 71.44% | 71.15% |
| **Hosteli/Grŵp** | 4.40% | 1.48% | 4.20% | 6.85% | 8.79% |
| **Hunanddarpar** | 14.83% | 19.81% | 13.81% | 12.52% | 11.49% |
| **Llety â gwasanaeth** | 15.69% | 6.60% | 15.05% | 8.56% | 8.96% |
| **Amgen** | 2.00% | 0.25% | 0.44% | 0.63% | 0.34% |
| **% Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Cyfanswm lleoedd gwely (niferoedd)** | **17595** | **99329** | **40389** | **32770** | **32479** |

* Yn deillio o ffynhonnell: https://gov.wales/statistics-and-research/accommodation-bedstock/?lang=en Tabl td 4, 'Nifer y Llety Lleoedd Gwely fesul Categori

7.1.10 Mae adolygiad newyddiadurol[3] o'r diwydiant 'glampio' yn nodi twf gwersylla yn ei holl ffurfiau, gyda nifer y teithiau gwersylla a charafanio traddodiadol yn tyfu ar yr un pryd â'r cynnydd mewn glampio, gyda phobl yn dewis treulio mwy o amser yn yr awyr agored yn gyffredinol. Yn Lloegr, roedd nifer y teithiau dros nos wedi dyblu rhwng 2015 a 2016, gyda gwefannau glampio yn nodi cynnydd o 50 y cant mewn gwyliau glampio. Ceir tueddiadau tuag at foethusrwydd pum seren yn nhiroedd gwestai neu gestyll, neu mewn rhai o'r tirweddau mwyaf anghysbell a gwerthfawr. Mae adeileddau ecogyfeillgar yn

[3] Telegraph, Tachwedd 2018 - https://www.telegraph.co.uk/travel/destinations/europe/united-kingdom/articles/the-rise-of-glamping



Draft

rhoi mynediad i ymwelwyr i dirweddau gwarchodedig lle na fyddai gwestai yn cael caniatâd i adeiladu. Mae arbenigwyr yn credu, er bod y mynediad i fannau gwyllt a gynigir gan safleoedd glampio yn eu gosod ar wahân i westai, bydd pobl yn parhau i glampio.

### Gweithredu a defnyddio'r polisi

7.1.11 Mae trafodaethau â Swyddogion Rheoli Datblygu a staff Twristiaeth wedi codi materion mewn perthynas â glampio sy'n berthnasol i'r adolygiad o'r CDLl.

7.1.12 Y materion cyffredinol a nodwyd oedd:

- Ystyried cyflwyno polisi i gwmpasu llety heb fod yn y categori pebyll (h.y. podiau gwersylla, 'yurts', cabanau bugeiliaid, carafannau sipsiwn, cromenni, 'tepees'/wigwamiau. Nid yw'r mathau hyn o ddatblygiadau yn bebyll oherwydd mae ganddynt sylfaen (h.y. decin). Byddai polisi sy'n cefnogi'r math hwn o ddatblygiad yn cael ei groesawu oherwydd byddai'n denu mwy o gerddwyr ac ati. Gallai'r math hwn o lety gael ei ategu ymhellach gan Ganllawiau Cynllunio Atodol.
- Mae angen ystyried polisi o'r fath a'i eiriad yn ofalus er mwyn peidio â chaniatáu sefydlu safle twristiaeth a fyddai'n arwain at gais pellach am annedd rheolwr.

7.1.13 Cyfeirir at y math hwn o dwristiaeth fel 'llety twristiaeth gynaliadwy' yn aml. Diffinnir twristiaeth gynaliadwy yn y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy fel 'Unrhyw fath o ddatblygiad, rheolaeth neu weithgaredd twristiaeth sy'n sicrhau diogelwch a gwarchodaeth hirdymor o adnoddau naturiol, diwylliannol a chymdeithasol ac sy'n cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol a chyfartal at ddatblygiad economaidd a llesiant unigolion sy'n byw, yn gweithio neu'n aros mewn ardaloedd gwarchodedig.'

7.1.14 Yn wyneb hyn ystyrir y dylai cynigion llety twristiaeth cynaliadwy (glampio) adlewyrchu'r egwyddorion allweddol canlynol o dwristiaeth gynaliadwy yn gyffredinol:



Draft

- Cynhyrchu buddion i'r economi leol (preswylwyr ac ymwelwyr)
- Diogelu a gwella nodwedd tirwedd a'r amgylchedd naturiol/hanesyddol
- Graddfa a dyluniad yn briodol i gyd-destun y safle
- Wedi'i addasu'n lleol (gan gydnabod bod datrysiadau llety cynaliadwy yn gallu bod yn amrywiol/unigryw)
- Cynhyrchu'r teithiau car lleiaf posibl
- Gwneud defnydd o adnoddau ynni adnewyddadwy (ynni effeithlon)
- Gallu cael eu symud ymaith heb adael ôl parhaol (gan gynnwys unrhyw seilwaith cynhaliol cysylltiedig)

7.1.15 Bydd disgwyl i bob cynnig ar gyfer llety 'twristiaeth gynaliadwy' gydymffurfio â'r egwyddorion allweddol hyn.

7.1.16 Mae trafodaethau â Swyddogion Rheoli Datblygu hefyd yn codi materion mewn perthynas â pholisïau unigol.

## Polisi LU14:

- Gallai Polisi LU14 gael ei symleiddio'n gyffredinol a pheidio â bod mor gymhleth.
- Mae'r mater yn codi gyda LU14(d) – Y tu allan i'r ardal arfordirol ni chaniateir newid defnydd o leiniau teithiol i leiniau carafannau statig, cabanau a chalets. Angen diwygio'r polisi i gynnwys yr un geiriad ag ar gyfer yr ardal arfordirol.
    - [Anghytuno, cyhyd â bod yr awgrym ynghylch LU14 (b) isod yn cael ei gymhwyso. Bydd hyn yn atal yn gyson mwy o garafannau statig ac yn caniatáu ar gyfer llety gwyliau llai parhaol y mae darpariaeth annigonol ar ei chyfer o hyd].
- Dylai LU14 (2) (iv) Asesiadau Effaith o Anghenion a Datblygiadau Twristiaeth fod yn ofynnol ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn unol â'r polisi yn unig yn hytrach nag ar gyfer pob cais, h.y. os ydych yn tynhau gofynion lleoliadau yna mae'n bosib na fydd asesiad yn ofynnol ar gyfer pob cais.

Draft

- Yn achos LU14 (2) mae angen tynhau ar gyfer lleoliad datblygiadau twristiaeth newydd (yn enwedig rhai mewndirol). Dylai datblygiadau twristiaeth newydd fod yn gyfagos neu'n gysylltiedig ag anheddiad sy'n bodoli. Dylai llety gwyliau mewndirol neu ddatblygiadau twristiaeth mewndirol fod yn gysylltiedig ag annedd/fferm sy'n bodoli a lle y byddai eu cadw yn ychwanegu at gymeriad yr ardal. Dylai'r geiriad gael ei ddiwygio i atal safleoedd twristiaeth newydd brand yng nghefn gwlad agored sydd, ar ôl eu caniatáu, yn arwain at bwysau ar annedd rheolwyr/defnydd preswyl parhaol cysylltiedig.
  - [Anghytuno: mae'n rhaid i safleoedd twristiaeth newydd fod yn gynaliadwy, ond bwriedir i'r Asesiad o Effaith Anghenion a Datblygiadau Twristiaeth sefydlu hyn mewn perthynas â datblygiadau parhaol ac ymdrinnir â hyn yn LU16 (3). Fodd bynnag, gan fod sawl math o glampio yn debygol o fod â phrofiad lleoliadol gwahanol fel rhan o'u hapêl, a gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn debygol o fod ag effeithiau gweledol gwahanol i garafannau, gan gynnwys carafannau teithiol, gall fod yn briodol i gynnwys y cyfeiriad '(ar gyfer glampio gweler LU16)' ar ôl 'llety' yn LU14 2a,. ac i fynnu mai dim ond cynigion ar gyfer 'twristiaeth gynaliadwy' ddylai fod yn dderbyniol y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Cyswllt, hynny yw, y rhai sy'n bodloni pob un o 'egwyddorion allweddol' 'twristiaeth gynaliadwy'. Gallai hyn gael ei gyflawni trwy ddiwygio maen prawf 3 Polisi LU16, gan ddileu'r 'a' olaf a rhoi yn ei le 'neu gynigion glampio sy'n bodloni pob un o'r 7 prif egwyddor twristiaeth gynaliadwy'.  Dylai'r 7 egwyddor allweddol gael eu darparu yn y rhesymau. Yn wyneb yr egwyddor allweddol derfynol, 'Gallu cael ei symud ymaith heb adael unrhyw ôl parhaol (gan gynnwys unrhyw seilwaith cynhaliol cysylltiedig', byddai hyn yn delio â phryderon ynghylch y pwysau i gael annedd rheolwr a phroblemau graddfa, sensitifrwydd ac ati.

Draft

## LU14(b)

- Nid yw estyniadau yn cynnwys safleoedd teithiol.
  - [Cytuno – dylai'r rhain gael eu cynnwys yn 2.b, felly byddai'n gwneud synnwyr i gadw 2.d.]

## Polisi LU15

- Mae'r polisi yn addas i’r diben.

## Polisi LU16

- Mae'r polisi yn addas i'r diben o ran gwestai, gwestai bach a hosteli sy'n bodoli. Cadarnhaodd swyddogion twristiaeth fod angen parhaus i warchod y rhain.
- Mae'r polisi yn datgan, "Mewn lleoliadau y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Cyswllt, annog a chefnogi addasu adeiladau sy'n bodoli i fathau eraill o lety twristiaeth ar yr amod bod yr adeiladau yn gadarn yn adeileddol, ac ni fydd angen unrhyw newidiadau allanol mawr." Mae'r polisi hwn yn awgrymu yn y rhan fwyaf o leoliadau cynaliadwy, ni allwn gymeradwyo addasu adeiladau sy'n bodoli i fod yn llety twristiaeth.
  - [Anghytuno – Mae maen prawf 3 yn dilyn maen prawf 2 sy'n annog datblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy – gellid deilio â'r pwynt a wneir yma trwy ddileu'r gair 'newydd' cyn y gair 'gwestai' ym maen prawf 2 o LU16.]
- Y disgrifiad cychwynnol 'yn nhermau mathau o lety heb ei gwmpasu gan Bolisi LU14 gan gynnwys; gwestai, gwestai bach, gwely a brecwast a hosteli'. Dylai llety hunanddarpar gael ei ychwanegu at y rhestr hon. Mae'n sôn am lety hunanddarpar o dan 7.104 ond nid unrhyw le arall.
  - [Cytuno y gallai'r geiriad yn y paragraff cyntaf gael ei newid i: '…gan gynnwys: gwestai, gwestai bach, gwely a brecwast, hosteli a bythynnod hunanddarpar.' Byddai'n rhesymol i wrthod newid defnydd bythynnod hunanddarpar am resymau cadw'r

Draft

cyflenwad o lety arhosiad dros nos trwy'r flwyddyn, ond hefyd i osgoi addasu i lety preswyl o safon annigonol.]

## Polisi LU17

- Ailystyried geiriad 7.107 i gefnogi cyfleusterau 'gwlyb a gwyllt'. Mae rhai cyfleusterau twristiaeth yn dibynnu ar leoliadau y tu allan i ganol y dref oherwydd eu natur a'u dibyniaeth ar yr amgylchedd naturiol.
    - [Gall atyniadau twristiaeth ar raddfa fwy fod ar amrywiaeth eang o ffurfiau, felly byddai dechrau eu henwi yn llai hyblyg nag amlinellu'r angen am hygyrchedd priodol – a fyddai yn sicr o ffurfio rhan o'r ystyriaeth fasnachol mewn unrhyw ddatblygiad twristiaeth.]

## Gweithgor yr Aelodau

- Mae cyfyngiadau datblygu safle carafannau arfordirol yn erbyn safle carafannau heb fod yn arfordirol wedi'u cyfiawnhau'n annigonol gan dystiolaeth i ddibynnu ar ffin a ffurfiwyd gan gefnffordd arfordirol yr A487.
    - Er symlrwydd, gall ffordd arfordirol yr A487 barhau i wasanaethu fel ffin ddangosol os yw'r meini prawf yn cael eu cyflwyno hefyd i'r polisi i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd lle y gellir dangos trwy Asesiad o Effaith Weledol ac ar y Tirwedd na fydd cynnig yn niweidio'r dirwedd. Trafodir opsiynau eraill mwy beichus yn y casgliadau ar ddiwedd y papur.
- Defnydd gwyliau o garafannau sengl o fewn cwrtil domestig.
    - Fel rheol mae lleoli un garafán statig o fewn cwrtil domestig yn ddarostyngedig i'w angen profedig fel rhywbeth sy'n atodol i'r brif annedd breswyl a meini prawf sy'n optimeiddio'r effaith weledol. Byddai'r ystyriaethau hyn yn gymwys o fewn a heb barth arfordirol.
- Dylai llety gwyliau allu gael eu haddasu i fod yn llety rhent fforddiadwy os nad ydynt yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau mwyach.



Draft

- o Fel y trafodir mewn perthynas â pholisi LU16, ceir tystiolaeth o angen gwirioneddol i gynnig llety twristiaeth addas trwy'r flwyddyn i hyrwyddo twristiaeth ymwelwyr sy'n aros. Yn ogystal, mae llety twristiaeth yn ofyniad safon is na llety preswyl parhaol. Mae addasu bythynnod gwyliau a danddefnyddir i fod yn llety rhent fforddiadwy yn debygol o dueddu tuag at dai ar gyfer y trigolion mwyaf agored i niwed yn y lleoliadau lleiaf hygyrch, yn bell o wasanaethau a lle mae cysylltiadau trafnidiaeth yn gostus neu'n wael i ateb anghenion bob dydd, mynediad i ysgolion a chyflogaeth ac ati.

Draft

# 8. Mentrau Newydd

## O'r Mynydd i'r Môr – 2018

8.1.1 Mae O'r Mynydd i'r Môr yn fenter i adfer ecosystemau ffyniannus ac economi leol gydnerth ar raddfa nas welwyd erioed o'r blaen ym Mhrydain.

8.1.2 Mae cynnig llwyddiannus gan Fenter Cadwraeth Caergrawnt (cydweithrediad unigryw rhwng Prifysgol Caergrawnt a sefydliadau cadwraeth bioamrywiaeth rhyngwladol arweiniol) i'r rhaglen a gyllidir yn breifat, Rhaglen Tirweddau Mewn Perygl, wedi sicrhau £3.4 miliwn o gyllid ar gyfer y fenter O'r Mynydd i'r Môr am gyfnod o bum mlynedd.

8.1.3 Bwriad y prosiect yw dwyn ynghyd un ardal ddi-fwlch llawn natur, yn ymestyn o fryniau Pumlumon i lawr trwy gymuned goediog i aber Dyfi, ac allan i Fae Ceredigion. O fewn pum mlynedd bydd yn cynnwys o leiaf 10,000 hectar o dir a 28,400 hectar o'r môr.

8.1.4 Bydd O'r Mynydd i'r Môr yn cynnwys:

- adfer prosesau naturiol sy'n darparu'r gweithrediadau ecolegol rydym ni i gyd yn dibynnu arnynt
- dod â chymunedau at ei gilydd i greu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol
- helpu'r economi leol er mwyn arallgyfeirio a sefydlu mentrau newydd seiliedig ar fyd natur.

8.1.5 Mae'n ymddangos bod y prosiect yn gyson â nodau'r Cynllun Llesiant a Strategaeth Twristiaeth a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion. Mae'r cyhoeddusrwydd ar gyfer y cynllun wedi'i ariannu hwn yn awgrymu y gallai gynnwys creu canolfan ddehongli ym Maesnant, yn agos i Gronfa Ddŵr Nant-y-moch.

8.1.6 Dylid ystyried cysylltu â'r grŵp llywio ar gyfer y prosiect i bennu graddfa unrhyw faterion defnydd tir sy'n gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys cynigion penodol ac uchelgeisiau ehangach.

Draft

# 9. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer rhoi sylw i'r mater)

9.1.1 Gellir crynhoi'r materion allweddol sy'n codi o'r adolygiad a'r ymgysylltu ar gyfer Strategaeth a Ffefrir 2018 fel a ganlyn:

9.1.2 Rhaid i unrhyw bolisi yn y dyfodol:

- Cydnabod yr asedau naturiol, treftadaeth a diwylliannol a nodwyd gan gynlluniau rheoli cyrchfan twristiaeth ac yn arbennig blaenoriaethau twristiaeth allweddol yn y ddogfen newydd 'Tyfu Canolbarth Cymru', eu budd i lesiant cymunedol a'r nodweddion y mae angen eu gwarchod mewn polisi.
- Darparu dull o asesu effeithiau mathau gwahanol o ddatblygiadau cysylltiedig â thwristiaeth ar y nodweddion a nodwyd hyn gan ddefnyddio paramedrau megis: graddfa, parhauster, gofynion seilwaith, dull mynediad, cynhyrchu teithiau.
- Caniatáu, lleddfu neu ailgyfeirio datblygiadau twristiaeth fel y bo'n briodol er mwyn i gymunedau allu bod yn llewyrchus, yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi trawsnewid rhagolygon economaidd a chynnal a chadw neu wella asedau amgylcheddol adeiledig a naturiol.

9.1.3 Yn benodol mae angen i bolisi ystyried:

- Lleoliad asedau twristiaeth – naturiol, treftadaeth a diwylliannol, a ffynonellau gwybodaeth ar eu nodweddion a werthfawrogir
- Y math o ddatblygiad –
  - datblygiad gweithredol yn erbyn y defnydd o dir (mae hyn yn cyfeirio at raddfa parhauster yr effaith trwy asesu lefel y gwaith sy'n codi o'r cynnig: byddai 'safle glampio' tŷ pren coeden yn 'ddatblygiad gweithredol', ond gallai pabell fawr ar sylfaen decin symudol fod yn 'ddefnydd tir')
  - llety twristiaeth traddodiadol – carafannau statig a theithiol, pebyll, bythynnod gwyliau, hosteli, gwestai (lleoliad, atal colled)
  - llety tueddiadau newydd – twristiaeth 'gynaliadwy' – glampio, gwersylla gwyllt

- Datblygiad defnydd hamdden D2 – parciau thema, lleoliadau chwaraeon, seilwaith llinol (llwybrau beicio penodedig, ac ati), defnyddiau atodol e.e. dehongli, addysg, gweithdai
- Seilwaith gwasanaeth a llety staff

- Argymhellion anffurfiol ar gyfer lleddfu effeithiau'r datblygiad/cyfeiriadau arferion gorau
- Sylfaen dystiolaeth ar gyfer ffiniau daearyddol wedi'u cyfeirio ato mewn polisi.

Draft

# 10. Casgliadau / Argymhellion

10.1.1 Mae'r adolygiad hwn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd llesiant fel y prif ffocws ar gyfer polisi cynllunio a'r ddogfen newydd 'Tyfu Canolbarth Cymru' fel y prif newidiadau cyd-destunol ers cyhoeddi CDLl cyntaf Ceredigion. Mae wedi nodi ymhellach materion yn ymwneud â'r parth arfordirol ar gyfer datblygiadau safleoedd carafannau a'r tuedd twristiaeth newydd ar gyfer 'glampio'.

10.1.2 Gall yr ymateb i'r gofyniad i ystyried llesiant gael ei gyflawni mewn ffyrdd gwahanol, gan ystyried adnoddau a chyngor Llywodraeth Cymru y dylai Strategaeth a Ffefrir ddiwygiedig ymdrin â newidiadau polisi hanfodol yn unig.

10.1.3 Yn gyffredinol, gall y materion allweddol sy'n codi o'r adolygiad hwn gael eu bodloni'n gyffredinol gan y polisïau twristiaeth cyfredol, pan gânt eu hystyried ochr yn ochr â pholisïau rheoli datblygu cyffredinol, ond mae'n ddefnyddiol i ystyried amrywiaeth o opsiynau. Mae'r amrywiaeth o opsiynau yn nodi'r dulliau gwahanol y gellir eu cynnwys mewn Strategaeth a Ffefrir diwygiedig ac yn cyfeirio at y goblygiadau o ran adnoddau.

### Gwneud Dim

10.1.4 Mae'n debyg nad yw hwn yn opsiwn hollol hyfyw yn wyneb y cyd-destun polisi diweddaraf a'i bwyslais ar lesiant a'r nifer fach o wendidau a nodwyd ym mholisïau cyfredol y CDLl o ran newid tueddiadau twristiaeth, yn arbennig, glampio, a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer defnyddio'r A487 i ddiffinio'r ffin arfordirol mewn perthynas â datblygu safleoedd carafannau.

10.1.5 Fodd bynnag, gall y newidiadau sy'n ofynnol gael eu hystyried yn rhai mân a heb fod angen newid perthnasol sylweddol i'r ffordd y caiff polisïau eu geirio na'u defnyddio.

### Gwneud y Mwyaf Posibl

10.1.6 Gellid dadlau bod angen fframwaith polisi cynllunio gofodol ac ansoddol strategol cadarnhaol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn seiliedig ar greu lleoedd a chynllunio rheoli cyrchfan ar gyfer llesiant a chydnerthedd

Draft

cymunedau Ceredigion. Fodd bynnag, byddai adnoddau amser a chyllideb yn ffactor arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

10.1.7 Yn y senario hwn, gallai fod newid i eiriad Amcan 4 fel a ganlyn:

'Hyrwyddo sector twristiaeth gynaliadwy, ystyriol o'r amgylchedd, gydol y flwyddyn sy'n seiliedig ar gynllunio rheoli cyrchfan, yn canolbwyntio ar ddatblygu asedau diwylliannol ac amgylcheddol mewn modd sensitif ledled Ceredigion, wedi'i ategu gan sylfaen llety dda sy'n darparu ar gyfer ystod eang o farchnadoedd ac yn darparu cyfleusterau amrywiol ar gyfer pob tymor.'

10.1.8 Gallai fod polisi Twristiaeth Strategol sy'n darparu cymorth cadarnhaol ar gyfer asedau a nodwyd yn ofodol fel cyrchfannau am resymau creu lleoedd unigryw, yr amgylchedd naturiol, diwylliant neu dreftadaeth, gan ddiogelu nodweddion yr asedau hynny sy'n eu gwneud yn arbennig neu'n unigryw. Byddai'r dull hwn yn bodloni'n gynhwysfawr nodau llesiant cenedlaethol a sirol.

10.1.9 Gellid ystyried yn fanwl addasu'r polisi mewn perthynas â glampio ac yn fwy beichus mewn perthynas â diffinio'r ardal arfordirol neu ailystyried y sail ar gyfer effeithiau gan ddefnyddio Asesiad Capasiti Tirwedd wedi'i gomisiynu.

10.1.10 Byddai'r ystyriaethau hyn yn cynnwys yr opsiynau canlynol:

- Dull polisi gofodol gan ddefnyddio gwybodaeth o'r astudiaeth asesiad capasiti tirwedd
- Polisi seiliedig ar feini prawf
- Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn gyfochrog

10.1.11 Byddai angen penderfyniadau wedi'u cyfiawnhau wrth baratoi'r cynllun ar y sail ddaearyddol ar gyfer asesid capasiti tirwedd, gan ddewis rhwng:

- Cytundeb Lefel Gwasanaeth Arfordirol
- Ardaloedd Cynllunio Rheoli Cyrchfan a lleoliadau pwynt
- Llain arfordirol ar Xm ystod band o'r arfordir



Draft

- Asesiad capasiti tirwedd o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth arfordir a'r dyffryn afonol
- Asesiad capasiti tirwedd o'r sir gyfan.

### Gwneud y Lleiaf Posibl

10.1.12 Ar y cyfan mae Amcan Twristiaeth 4 a'r polisïau twristiaeth yn addas i'r diben a byddent yn dderbyniol gyda rhai mân addasiadau a mwy o ffocws ar glampio pan gânt eu cymhwyso ochr yn ochr â pholisïau Rheoli Datblygu cyffredinol yr ystyrir eu bod yn addas i'r diben (DM01, DM03, DM04, DM06, DM10 a DM17 yn arbennig) wrth gyflenwi ffocws polisi 'llesiant'. O ran y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl 2, dylai'r polisïau rheoli datblygu hyn fod yn ddarostyngedig i ddatganiad o dir cyffredin na ddylent gael eu hailystyried mewn perthynas â thwristiaeth.

10.1.13 O ran defnyddio'r A487 fel ffin ardal arfordirol, gallai hyn barhau i wasanaethu fel ffin ddangosol os yw'r meini prawf yn cael eu cyflwyno i'r polisi hefyd i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd lle y gellir dangos trwy Asesiad o'r Effaith Weledol ac ar y Tirwedd na fydd cynnig yn niweidio'r dirwedd.

10.1.14 Byddai'r opsiwn 'gwneud y lleiaf posibl', gan ychwanegu rhai meini prawf at bolisïau cyfredol felly, yn bodloni pryderon Aelodau a Swyddogion Rheoli Datblygu, uchelgeisiau Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer twristiaeth yng Ngheredigion, ac yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac fei'i argymhellir fel ffordd gadarnhaol ymlaen ar gyfer dogfen newydd y CDLl mewn perthynas â thwristiaeth.

Draft